# ASTUDIAETH ACHOS




## Ty'n Llan, Llandwrog, Gwynedd

***Hafan Gymunedol: Prosiect Cymraeg cyntaf Tafarn yw'r Galon, gyda chymorth ariannol gan Gronfa Cefn Gwlad y Tywysog, yn mynd ati i hybu llesiant y pentrefwyr.***

Tafarn y Ty'n Llan yn Llandwrog, Cymru oedd y dafarn gyntaf i dderbyn cymorth fel rhan o raglen dwy flynedd o hyd yng Nghymru o dan ofal Tafarn Yw'r Galon a Chronfa Cefn Gwlad y Tywysog. Mae Tafarn Yw'r Galon wrthi'n cefnogi prosiectau yn ardaloedd cefn gwlad Cymru gyda diolch i Gronfa Cefn Gwlad y Tywysog am grant o £25,000.

Roedd y Ty'n Llan yn Llandwrog, Cymru'n dafarn breifat ac fe gaeodd ei drysau'n 2017.

Doedd dim cyfleusterau eraill yn y pentref nac ychwaith unman arall lle gallai'r trigolion ddod ynghyd, felly roedd cau drysau'r Ty'n Llan yn golled dirfawr iddyn nhw, yn enwedig yn ystod y pandemig Covid-19 lle'r oedd bywyd cymunedol yn bwysicach nag erioed i hybu iechyd a lles pobl.

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus dros Zoom ym mis Chwefror 2021 ac roedd dan ei sang gyda dros 100 o bobl yn bresennol. Yn dilyn y trafodaethau anffurfiol hynny, roedd hi'n amlwg bod y trigolion yn awyddus iawn i ail-agor y dafarn. O ganlyniad, fe sefydlwyd Menter Ty'n Llan ym mis Mawrth 2021 fel Mudiad Buddiant Cymunedol er mwyn mynd i'r afael â'r nod hwnnw.

Fe gyhoeddwyd bod y dafarn ar werth a phenderfynodd dros 1,000 o bobl fuddsoddi yn y cynllun cyfranddaliadau er mwyn casglu digon o arian i brynu'r dafarn ym mis Mehefin 2021.

Adeiladwyd yr adeilad rhestredig Gradd II yn oddeutu 1855 gan yr Arglwydd Newborough fel rhan o'i Stad Glynllifon ac yn dilyn gwaith adfer ac addurno fe agorwyd drysau'r dafarn unwaith eto ym mis Rhagfyr 2021. Bu'r gwirfoddolwyr wrthi'n brysur am wythnosau'n cyflawni gwaith atgyweirio a pheintio, yn ogystal â thorri'r gwair a thacluso'r ardd yn barod ar gyfer ail-agor.

Ers ail-agor y dafarn, mae Menter Ty'n Llan wedi mynd ati i gyflawni gwerth £650mil o waith adfer ychwanegol gyda chymorth ariannol gan Gronfa Perchnogaeth Gymunedol y DU, Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Asedau Cymunedol CGGC. At hynny, bu iddyn nhw dderbyn rhagor o gyllid gan y Loteri Genedlaethol yn ddiweddar i gyflawni gwaith pellach ar yr adeilad.

## Cyfoethogi Bywydau

Nod ail-agor y dafarn oedd sicrhau ei bod yn masnachu eto ond yn fwy na hynny er mwyn cyfoethogi bywydau'r trigolion gan ddwyn pobl ynghyd.

Y bwriad oedd bwrw iddi i greu canolfan gymunedol brysur ac annog pobl o bob lliw a llun i ddod ynghyd mewn lle croesawgar gan fwynhau llymaid neu damaid wrth gymdeithasu. Y nod hefyd oedd cynnig man penodol lle gallai grwpiau cymdeithasol a grwpiau diddordeb arbennig – sydd wedi bod heb gyfleuster digonol ers amser maith – gwrdd a ffynnu.

Ffurfiwyd clybiau newydd gan gynnwys grŵp ymarfer corff cadair, clwb darllen, clwb cerdded, bore coffi a grŵp i ddysgwyr Cymraeg.

*"Mae mynd ati i ail-agor Ty'n Llan fel Menter Gymunedol wedi bod yn werth chweil ac mae wedi creu bwrlwm gwirioneddol ac ymdeimlad o bwrpas i sawl un. Mae Ty'n Llan hefyd wedi llwyddo i gynnig gwasanaethau a chyfleoedd annatod i gymuned cefn gwlad. Does dim cyfleusterau yn y pentref, dim siop, canolfan gymunedol ac mae diffyg cludiant cyhoeddus yn ogystal. Yn sgil Covid-19 roedd pobl yn teimlo'n unig ac ynysig dros ben, a gan hynny mae Ty'n Llan wedi creu canolfan, lle i ymgynnull, i gwrdd â ffrindiau hen a newydd, i ddysgu sgiliau newydd ac i gymdeithasu. Rydym yn ddiolchgar dros ben i Tafarn Yw'r Galon am eu cyfraniad a fyddai'n fodd inni fynd rhagddi i ddatblygu ein digwyddiadau a'n gweithgareddau ymhellach er lles y gymuned. Dim ond megis dechrau mae'r gwaith, mae gennym ni lu o gynlluniau cyffrous ar y gweill."*

***Cadeirydd Menter Ty'n Llan, Caryl Lewis***

## Hafan Gymunedol

Fe ddarparwyd Grant Gwasanaethau Cymunedol Tafarn yw'r Galon (gyda chymorth gan Gronfa Cefn Gwlad y Tywysog) i helpu gyda chynnal digwyddiadau cymdeithasol amrywiol y dafarn, ynghyd â grwpiau a chyfleoedd gwirfoddoli.

Fe ddefnyddiwyd y grant i brynu cyfarpar defnyddiol ar gyfer y gymuned a'i grwpiau, gan gynnwys crochan coginio'n araf, cynheswr cawl, peiriant bingo, system PA symudol, offer garddio, cyfarpar TG, PlayStation ac iPad.



Mae'r holl gyfarpar yn cael defnydd helaeth gan y gwahanol grwpiau a chlybiau yn y dafarn. Er enghraifft, mae aelodau'r clybiau Cymraeg a Ffrangeg yn gwneud defnydd o'r holl gyfarpar TG.

*"Mae Menter Ty'n Llan wedi sefydlu Ty'n Llan fel tafarn sydd wirioneddol wrth galon ei gymuned. Mae'n hafan gymunedol erbyn hyn lle gallai trigolion y pentref ymweld â hi a rhoi cynnig ar amrywiaeth o weithgareddau. Mae'n mynd i'r afael â'r problemau cymdeithasol cynyddol o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol ymysg trigolion yr ardal ac yn cynnig modd i bobl ddod ynghyd."*

***Malcolm Harrison, Ymgynghorwr Rhanbarthol Cymru ar ran Tafarn Yw'r Galon***

## Grwpiau a chyfleoedd gwirfoddoli

Bu i'r grant Tafarn yw'r Galon hefyd helpu i gynnal y clwb cinio i bobl dros eu 60, nosweithiau cwis a bingo ar gyfer y gymuned a'r clybiau lleol gan gynnwys clwb i bobl ifanc lle mae modd iddyn nhw ddefnyddio'r Chromebooks a PlayStation wrth ddysgu a chymdeithasu.



Erbyn hyn mae cyfleoedd i wirfoddolwyr dorchi eu llewys a helpu gyda chynnal a chadw'r ardd hefyd. Mae cornel synhwyraidd a lles yno eisoes ac mae croeso i bawb o'r gymuned ei mwynhau.

## Hybu iechyd a lles

Mae'r grwpiau hyn yn llwyddo i ddod a phobl ynghyd yn ogystal â hybu eu lles gan sicrhau bod y rheiny sy'n mynychu'n teimlo'n llai unig ac ar wahân o'r gymdeithas.

Mae'r dafarn yn cynnig ystod o weithgareddau sydd wedi creu gwir deimlad o gymuned ac wedi hybu iechyd a lles pobl drwy gynnig cyfleoedd i wirfoddoli, cymdeithasu a dysgu sgiliau newydd. Mae hyd yn oed pobl na fyddai wedi mentro i Ty'n Llan pan roedd hi'n dafarn yn ymweld â hi'n rheolaidd erbyn hyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chwrdd â'u ffrindiau.

Bwriad y prosiect ydy denu pobl i'r dafarn ynghyd â chefnogi'r gymuned yn ei chyfanrwydd. Mae'r dafarn hefyd yn cynnig gwasanaeth pryd ar glud lle gallai bobl hŷn y pentref, sydd methu â gadael eu cartref oherwydd rhesymau iechyd, dderbyn pryd poeth wedi'i gludo i'w stepen drws.

Mae grwpiau a gweithgareddau'r dafarn hefyd yn fodd i wirfoddolwyr ddatblygu sgiliau newydd ac mae disgyblion yr ysgol yn mwynhau bod yn rhan o weithgarwch cymunedol a rhwydweithio gyda'r boblogaeth hŷn.